# Adroddiad Arolygu

**Ysgol Feithrin y Trallwng**

**Ysgol Gymraeg y Trallwng**
**Red Bank**
**Y Trallwng**
**SY21 7PW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/06/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ysgol Feithrin y Trallwng

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Ysgol Feithrin y Trallwng Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23/11/2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy.<br>Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad hwn, am eu bod yn cael eu parchu ac yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o ansawdd uchel. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae staff gofal medrus a phrofiadol yn gofalu am y plant yn effeithiol ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn ymrwymedig, yn weithgar ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ysbrydoledig, ac mae digonedd o ardaloedd chwarae a gweithgareddau wedi'u gosod allan i feithrin sgiliau a dychymyg y plant. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ac yn fuddiol i'r plant. Mae digonedd o deganau a gemau ar gael, ac mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig ac yn wybodus am yr arferion gofal plant cyfredol, ac mae hyn yn sicrhau lefel eithriadol o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau parhaus er budd y plant a'u teuluoedd, ac yn cefnogi tîm o staff ymrwymedig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn wedi'u meithrin â'r rhieni a'r ysgol, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais cryf a gallant ddylanwadu ar eu gofal. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae'r staff yn ymgynghori â'r plant ynghylch thema gweithgareddau. Y plant a awgrymodd y thema bresennol, sef deinosoriaid. Mae'r plant yn hyderus i siarad a mynegi eu hunain, er enghraifft roeddent yn sgwrsio'n frwdfrydig am eu pen-blwyddi a beth fyddai eu hoedran a pha fath o gacen roeddent yn gobeithio ei chael.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff, sy'n ymgysylltu'n gyson â nhw, ac maent yn teimlo'n hapus i fynd at y staff am gymorth neu i gael sgwrs. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad yn fawr, a bod rhai plant eisiau mynychu pan nad oes sesiwn wedi'i threfnu ar eu cyfer. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn perthyn, am fod ardal bersonol iddynt gadw eu cotiau, eu bagiau a'u welintons. Maent yn fodlon eu byd ac wedi meithrin cydberthnasau â'i gilydd. Roedd yn bleser gweld grwpiau o ffrindiau mewn ardaloedd chwarae, yn sgwrsio ac yn cyd-dynnu â'i gilydd - yn sefyll ar foncyffion pren neu'n chwarae yn y gegin fwd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Maent yn hapus i gyd-dynnu pan fydd y staff yn gofyn iddynt dacluso pethau cyn cael byrbryd. Mae'r plant yn dechrau rhannu amser ac adnoddau.  Maent yn cymryd eu tro i chwarae â'r palwyr yn yr ardal cerrig mân yn yr awyr agored neu'n aros am ei gilydd wrth gamu ar y boncyffion.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Gwelsom fod y plant yn ymddiddori mewn gweithgareddau megis cicio a thaflu pêl a chwarae'n ddychmygus yn ardal byd y deinosoriaid ymysg y planhigion gwyllt. Roeddent yn gwneud crefft a chardiau dathlu ac yn mwynhau gwneud cacennau mwd.

Caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, ac yn rhoi teganau i gadw ar ôl eu defnyddio. Maent yn mynd i'r toiled ac yn golchi eu dwylo ar eu pen eu hunain. Cânt eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Yn ystod amser byrbryd, maent yn helpu eu hunain i ffrwythau a darn o fara brioche neu iogwrt. Maent yn clirio eu cwpanau, eu platiau a bwyd dros ben ar ôl iddynt orffen.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac wedi adolygu'r lleoliad a'r gofal yn unol â'r canllawiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar amddiffyn plant a chymorth cyntaf. Gallant siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr iach. Maent yn darparu byrbrydau iach, megis amrywiaeth eang o fara, ffrwythau a chynnyrch llaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod byrbrydau iach yn cael eu darparu'n gyson.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad a hybu eu hunan-barch. Maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt, er enghraifft wrth dacluso teganau a chyfarpar neu siarad Cymraeg. Maent yn rhyngweithio ac yn siarad â'r plant yn gyson. Maent yn fodelau rôl da, ac yn neilltuo amser i gymdeithasu â'r plant yn ystod amseroedd byrbryd, lle maent yn eistedd ac yn sgwrsio â nhw.

Mae'r staff yn ymgysylltu â'r plant, gan eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar bob gweithgaredd a'u hannog i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Maent yn deall sgiliau a dewisiadau'r plant yn dda, a gofynnir i'r rhieni am wybodaeth am eu plant bob tymor. Mae'r staff yn cofnodi arsylwadau trylwyr ar ddatblygiad y plant ac yn cynllunio gweithgareddau i'w datblygu ymhellach. Mae'r staff yn cynllunio anghenion iaith y plant yn rhagweithiol, ac mae'r staff sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio cwricwlwm Cymraeg ac wedi cwblhau hyfforddiant er mwyn sicrhau bod ganddynt yr adnoddau i helpu'r plant i ddysgu Cymraeg. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn dysgu'r iaith yn gyflym yn ystod eu hamser yn y lleoliad hwn. Mae system gweithwyr allweddol effeithiol ar waith, sy'n sicrhau y caiff nodiadau ar ddatblygiad pob plentyn eu cofnodi bob wythnos. Cesglir gwybodaeth mewn siart hefyd, felly mae'r staff yn benodol yn nodi unrhyw anghenion ychwanegol. Mae hyn yn golygu bod modd teilwra gweithgareddau i'r plentyn unigol. Mae'r staff yn ennyn chwilfrydedd drwy weithgareddau ac adnoddau, gan gynnwys eitemau go iawn i'r plant gyffwrdd â nhw megis hambyrddau ac offer metel yn y gegin fwd a deunyddiau naturiol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi nodi risgiau ac wedi cymryd camau i'w lleihau neu eu dileu, er enghraifft mae'r pibellau poeth wedi'u lagio. Mae'r asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd perthnasol ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod y staff yn deall y risgiau. Mae'r staff a'r plant yn gwybod sut i wagio'r adeilad yn ddiogel mewn argyfwng am fod ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn datblygu amgylchedd ysgogol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn i wella profiadau'r plant. Defnyddir gwahanol ardaloedd chwarae a dysgu yn effeithiol, gan gynnig amrywiaeth o brofiadau diddorol megis gwneud marciau, byd y deinosoriaid, defnyddio ffyn rhythmau a champfa toes i hybu eu datblygiad cyffredinol. Ceir ardal awyr agored, sy'n cynnwys ystafell ddosbarth awyr agored â thair ardal gysgodol, byrddau picnic, ac ardal ar wahân er mwyn i'r plant dyfu eu hadau a'u planhigion eu hunain. Ceir toiledau a basnau ymolchi hygyrch er mwyn helpu'r plant i fod yn annibynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi arddangos gwaith celf lliwgar ac addas a phosteri yn Gymraeg. Dywedodd un rhiant wrthym fod y plant yn cael budd o amgylchedd creadigol.

Ceir amrywiaeth o adnoddau, teganau a llyfrau, gan gynnwys eitemau naturiol a rhai go iawn. Mae'r dodrefn mewn cyflwr da ac yn addas i oedran y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau naturiol i'r plant eu harchwilio, megis boncyffion, cregyn, dail a brigau. Maent hefyd wedi darparu ardaloedd i'r plant ymlacio yn cynnwys soffas isel dan do a bwthyn straeon yn yr awyr agored. Cyflwynir y byd naturiol i'r plant hefyd ar ffurf ymyl gwyllt, lle y gall y plant weld y berthynas rhwng y blodau â gwenyn a phryfaid.

## Arwain a Rheoli

Mae'r arweinyddiaeth yn gadarn iawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am yr arferion gofal plant cyfredol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr, ac yn ystod ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diwallu anghenion y plant a'u teuluoedd. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol bob tymor a bob blwyddyn. Mae'r gwerthusiadau'n cynnwys adborth gan y rhieni a'r plant. Caiff safbwyntiau'r rhieni a'r plant eu hystyried o ddifrif, a chaiff cryfderau a meysydd i'w gwella eu nodi yn yr Adolygiad Blynyddol o Ansawdd y Gofal. O ganlyniad, mae'r ardaloedd chwarae a datblygu wedi cael eu tacluso ac mae rhagor o adnoddau wedi cael eu prynu fel eu bod yn edrych yn ffres ac yn ddeniadol i'r plant ac yn cynnig cyfleoedd gwell iddynt.

Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm, ac mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, gan achub y blaen wrth arwain y plant yn briodol. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn hyfryd ac yn groesawgar. Mae hyfforddiant yn dal i gael ei ddarparu fel rhan o ddatblygiad y staff ac er budd y plant. Er enghraifft defnyddio gwahanol ddulliau i helpu'r plant i ddysgu Cymraeg. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod y broses o recriwtio staff yn gadarn a bod yr holl wiriadau wedi cael eu cwblhau i sicrhau bod yr ymarferwyr yn parhau i fod yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r arfarniadau blynyddol a'r gwerthusiadau rheolaidd, sy'n ystyrlon, yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. O ganlyniad, caiff y plant ofal gwych gan staff proffesiynol a brwdfrydig, ond yn hamddenol eu ffordd.

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill yn rhagorol ac yn cyfrannu at lesiant y plant. Gall y plant rannu gwybodaeth â'r staff yn rheolaidd er budd y plant. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r rhieni, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y bartneriaeth â'r rhieni iddynt. Roedd y rhieni'n gadarnhaol iawn am y gofal y mae eu plant yn ei gael a'r cymorth a roddir i deuluoedd. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant. Mae'r lleoliad hefyd yn cael cyngor gan dîm Hawliau'r Blynyddoedd Cynnar ac athrawon yr ysgol. Mae mesurau ar waith i helpu'r plant i bontio'n gyfforddus i addysg amser llawn ym mis Medi, gan ddefnyddio dulliau arloesol a thechnoleg.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1**. Llunio bwydlen byrbrydau i adlewyrchu'r dewisiadau maethlon a roddir i'r plant.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i Gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/07/2021